COVID-19 Update: 5th June

Welcome to the last COVID-19 update of the week from Cardiff Council, covering: Cardiff's plans to exit lockdown as one of UK's 'safest' cities; Cardiff Council's £29m COVID-lockdown bill explained; and a new website to help people manage their money.

Cardiff's plans to exit lockdown as one of UK's 'safest' cities revealed

Creating one-way walking systems to safeguard the public, setting up welcome points to explain how moving round the city centre will work and opening up Cardiff Castle's grounds to create a 'new' public square for local businesses to use are just some of the schemes Cardiff Council is considering as it prepares to exit lockdown.

A detailed plan of action has been published by the council which outlines a raft of innovative measures with the aim of making Cardiff one of the 'safest' cities in the UK as life begins its return to 'normal'.

The plan has been developed with Arup, recognised technical experts on redesigning cities. It will be used to consult residents, businesses and councillors on how the council will:

- safely re-open the Welsh capital making it accessible to all;
- support businesses as they start to trade again;
- re-establish footfall in the city centre while complying with social distancing requirements;
- help people to access the city centre despite reduced public transport capacity; and
- promote Cardiff so that it develops a reputation as a safe, welcoming, exciting and forward-thinking place to visit post-lockdown.

Leader of Cardiff Council, Cllr Huw Thomas, said: "These plans start to outline how life can resume and how Cardiff can prosper despite COVID-19. We want to restart, recover and renew Wales' capital and I'm determined that when lockdown restrictions are lifted, our city will reopen in a way that is safe for everyone; in a way that does everything it can to safeguard thousands of jobs; and in a way which is both welcoming and confident about the future of Cardiff.

"We are working through the finer details of these plans with businesses, residents, and local Councillors and I'm confident if we adopt the same 'one-city' approach that has seen the public sector, communities and businesses pull together throughout the pandemic, then we can truly make a reality of the common desire to 'build back better'.

"I'm especially excited about our proposals to open up Cardiff Castle's grounds as a new 'public' square for local residents to use for free. The castle grounds are spectacular. It could provide restaurants and cafes with covered areas to use, giving them a chance to make up for floor space and clients they would otherwise lose because of having to observe social distancing rules in their properties.

“We are also working with a local technology firm to develop an App which could see people order their food from the castle and then have it delivered to enjoy in the finest setting the city has to offer. I’m also keen that we work with the music board to bring live music back to the city as soon as we can. We will look at ways of using public space to create safe event spaces where people can enjoy music and street entertainment in a safe and welcoming environment.”

The plan outlines a series of measures designed to open the city safely and in a way that will encourage people to return to work, to shop, do business and enjoy the wide range of restaurants, cafes and bars the city is home to.

The measures include:

Welcome Points – installed at the main pedestrian access points to the city. Welcome Points will offer information to the visitor/shopper/worker on how the city centre works, how to visit in a safe way, how to reach particular destinations, a walking plan, hand-washing facilities, cycle-parking facilities and a member of staff to assist. Signage and street ambassadors will also be available throughout the city centre to assist visitors and re-enforce the information provided at the welcome point.

One-way pedestrian movement – Pedestrians (shopper/workers/visitors) within the city centre will need to follow signed/marked routes to ensure social distancing is observed. There will be a series of one-way movements with earmarked spots to reverse the direction of travel (a leap-frog point). Pinch points have also been identified where pedestrian movement will need to be restricted to one-way travel, or single file movement to ensure an adequate social distance can be achieved. A series of routes around the city centre is being developed taking account of the retail offer, transport hubs (bus stops, taxi ranks, stations & car parks). A plan is being developed to cover all city centre streets, dependent upon footfall and the availability of safe (socially distanced) walking space.

Queues - As each retail unit /shopping centre/arcade will only be able to operate in a safe manner by restricting the number of users at any one time, there will be an inevitable impact on the streets outside the shops. Designated queuing areas will be identified and marked on-street. There will need to be some (hot/cold/wet) weather protection for people queuing outside any of the attractions.

Public Realm and Spill-Out Areas – The council recognises that several businesses in the hospitality sector (restaurants/cafes/bars) could be seriously affected by the need to follow social distancing rules. With that in mind the Council is proposing to open up spill-out areas and give space in the public realm over to businesses to use for free. It is essential that the key streets, public spaces and new spill-out spaces allow social distancing, are safe, well connected, and present an attractive green environment, appropriate in a capital city environment. The plan identifies a number of ‘spill-out spaces’ where there can be more managed social activity and safe events. These include the grounds inside and around the main walls of Cardiff Castle, the northern end of Churchill Way, the Hayes and Mill Lane.

Car Parking – many of the existing city centre car parks will need to operate at a

reduced capacity in order to enable people to leave and return to their cars in a safe manner. A combined (public/private) approach to the availability of city centre car parking is being developed. To support this a comprehensive network of Park and Ride/Park and Stride/Park and Cycle facilities need to be developed to manage car access away from the centre, but to allow easy walking/cycling/bus access for the 'last mile' of the journey.

Accessing the City Centre – An integrated city transport plan will help people access the city centre via car, public transport and active travel (walking or cycling). The transport plan could see the city centre put into 'event mode'. This would see road closures similar to those put in place for major rugby internationals in the Principality Stadium.
An 'event mode' closure would allow our limited, city-centre spaces to be used most efficiently, enabling safe, social-distanced public movement, access to businesses and new spill-out spaces. A managed cordon would be set up around the city centre allowing car access, and bus/active travel movement.

Security and Aggressive Begging – all on-street security issues are being discussed/agreed with the police who have offered support to manage pedestrians and any social-distancing issues. A long-term strategy to help the homeless after lockdown is lifted is being developed. 140 people experiencing homelessness have been housed in newly acquired accommodation since the outbreak began. Of this number 30 had been rough sleeping and the intention is to make sure those people do not return to the streets. The lack of begging opportunities in the city centre has meant clients, who have been left unable to fund harmful addictions, have responded more positively to support services and have begun treatment programmes. Cardiff's Homeless partnership has been working throughout the pandemic to take this opportunity to help people begin tackling their addictions. The number of people sleeping rough in the city has dropped to single figures since lockdown. Outreach continues to work with the individuals on the street to try to encourage them to take up offers of accommodation and help. Unfortunately, money raised from begging can be enough to allow people to fund their addictions and refuse offers of help.

Local Neighbourhood Centres
It's also important to introduce measures to ensure neighbourhood centres can re-open for businesses, while ensuring safe access for the public. In many cases pavements are not wide enough to enable social distancing and queuing outside shops onto pavements could become a cause for concern. We will introduce a range of schemes as soon as it's practical, including a package of safety and greening measures including pavement widening, cycle routes and 20mph speed limits. Measures which will be piloted at Wellfield Rd in the Roath area could also be rolled out to other neighbourhoods.

Car Access
As lockdown restrictions ease and people return to work, it's important the transport system is managed in a way that enables social distancing and keeps people safe. Capacity on public transport is likely to be limited for several months and there would be negative impacts in terms of air quality, congestion and emissions if everyone chose to drive instead. Around 29% of households in Cardiff do not have access to a

car or van meaning it is essential to provide safe and sustainable alternatives to public transport. This will largely be in the form of improved walking and cycling infrastructure, and residents who can will be encouraged to consider active travel methods for shorter journeys.

Cllr Caro Wild, Cabinet Member for Strategic Planning and Transport said: “It is essential that we do what we can to enable people to continue to cycle and walk as lockdown restrictions ease. There is a chance for us all now to see first-hand how a greener and a safer Cardiff could look. Capacity on public transport will be limited for some time, and we think a lot of people will continue to work from home, which should reduce car numbers into the city. What we don’t want to see is congestion and pollution levels building again. Especially with the measures we will have to introduce widening pavements to ensure social distancing rules can be followed.

“To help we are looking at delivering a ‘pop-up’ cycleway network to encourage people who can, to cycle into the city centre or their neighbourhood centres rather than drive. We will also look at providing additional cycle parking in key locations in the city centre and in our neighbourhood centres. We will review the potential for creating ‘park and pedal’ sites and we will install bus priority measures such as bus gates to maximise the capacity of buses by minimising journey times and ensuring reliability of services.”

Cllr Russell Goodway, Cabinet member for Investment and Development, said: “The main economic fallout from the virus will be felt in Cardiff city centre, which accounts for around a third of the city’s jobs. The city centre hosts a large number of the businesses that are already, and will continue to be, the most impacted by the pandemic, due to their reliance on consumer footfall. Potentially 45,000 jobs in the city are at risk: it is anticipated that only a 20% reduction in the economy would see up to 10,000 jobs lost across these sectors. It is therefore crucially important to get as many businesses back operating safely as quickly as possible. Cities across the UK will be competing for footfall. Cardiff needs to win back the confidence of local people, visitors, students and investors.

“It’s clear that urgent action is required to re-open the city centre as a welcoming destination. Our discussions with local employers and business operators have been very positive overall. Everyone knows the city and the economy needs to get moving as soon as it is safe to do so. We want to open up public space for free, and implement flexible licensing arrangements to support businesses which could see their customer numbers hugely reduced by social distancing requirements. If we can open up covered public spaces for some businesses it can give them a chance to get up and running again and it can give them a chance to save jobs.”

The strategic plan and an accompanying Council report will go to Cardiff Council’s Cabinet for discussion on Thursday, June 11.

Cardiff Council’s £29m COVID-lockdown bill explained

A breakdown of the estimated £29m cost to Cardiff Council of responding to the Covid-19 outbreak between April and end of June has been revealed in a report to the authority's Cabinet.

Among the costs are:

- £5.1m spent on personal protective equipment (PPE);
- Support to domiciliary and residential care providers to reflect the additional costs of providing care during the pandemic;
- £2.1m on providing free school meals to around 12,000 pupils daily
- £2.1m to support suppliers paid in accordance with Government guidelines, in order to ensure service continuity both during and after the current Covid-19 outbreak;
- £1.8m on bereavement services – (enabling the procurement of a temporary morgue facility);
- £1.7m on operational changes to waste; and
- £1.6m on housing to support the homeless during the pandemic.

The council has also revealed the income losses COVID-19 is estimated to cost the council over the same period.

These include but are not limited to:

- £3.8m lost in parking fees, parking penalties and Moving Traffic Offences (MTOs);
- £2.3m lost from venues and events;
- £1.3m lost from trade, bulky and recyclable;
- £700k lost from leisure and outdoor sport;
- £700k lost from school meals;
- £600k lost from Storey Arms and the Music Service;
- £500k from planning and building control.

The report lay bare the expense involved in dealing with the effects of the virus.

The authority estimates it will spend more than £18m responding to the crisis and a further £11m is estimated to be lost in income as a direct result of COVID-19, in the first three months of the financial year alone.

Cabinet member for Finance, Modernisation and Performance, Cllr Chris Weaver, said: "Cardiff Council has reacted quickly to the crisis, changing the way we work, putting clear focus on maintaining essential services which deliver for our most vulnerable residents.

"Since lockdown began our services have had to respond and adapt to the crisis as events continued to unfold. We have set up food operations ensuring people across the city who are shielding or in financial difficulty because of the virus will not go without food. We have changed the way our waste services operate to ensure weekly kerbside collections are maintained while keeping our staff and residents safe.

"We have procured millions of items of PPE to ensure our services and the care sector can continue to operate. We have also worked closely with the care sector to

ensure it can continue to operate in these difficult times, delivering a vitally important and valued service. Our school hubs have opened for the children of key workers and we have provided meals and cash payments for thousands of disadvantaged children throughout lockdown.

“Of course all of this comes at a cost and we have spent more than £18m ensuring the city continues to run and the most vulnerable among us do not suffer unnecessarily. Our focus has always been on ensuring the resilience of services critical to our COVID-19 response, doing everything we can to protect our most vulnerable citizens and our staff, and trying to halt the virus spreading.”

The £18m additional expenditure is being kept under constant review, and is being updated regularly as further pressures emerge. These include assessing the financial impact of a significant increase in the number of applications for Council Tax Support and current work to establish effective ‘Contact Track and Trace’ services locally as part of an all-Wales initiative.

Cllr Weaver added: “When we look at income we estimate that we will lose in excess of £11m as a direct result of Covid-19. Lost income during the lock-down includes the closure of the council’s cultural and sporting venues such as theatres, Cardiff Castle, Cardiff White Water and City Hall functions. It also reflects a reduction in activity in other income-generating areas including planning, parking, moving traffic offences, trade waste, registration and school catering.

“As with expenditure, this estimate will be monitored closely and updated as required. Over time the assessment of further income streams will need to be analysed with the most significant being the potential for any impact on the collection of Council Tax this year. Every penny we take in Council Tax now is essential. It helps us maintain regular cash flow, which allows us to manage some of the expenditure and income losses we have seen.”

The council hopes it will be able to claim back the additional £18m expenditure from Welsh Government through the Covid-19 Hardship Fund. This fund currently totals £110m and is for all local authorities in Wales to access. To date Cardiff Council has received £465,000 to cover Covid-related spend during the latter weeks of March. An April claim of £5.2m has been lodged with Welsh Government.

The report says it is likely, however, that the current funding level will not be enough to cover all expenditure requirements at an all-Wales level, and any decision on whether income loss will be reimbursed by Welsh Government is yet to be taken.

Cllr Weaver added: “We are submitting claims to Welsh Government on a monthly basis. There is, of course, an element of risk regarding the ongoing recovery of costs. In particular, as current funding arrangements are confirmed to the end of June 2020 only. It’s clear to us that the challenges we face and the money we are spending to deal with those challenges will extend beyond that time-frame.

“There will be a need to consider and fully capture the implications of moving towards what is likely to be a “new normal” as lockdown restrictions are eased and the recovery phase begins. This is likely to include the impact of exit strategies for

service changes put in place during the pandemic. It is also likely that some services will need to be changed to accommodate social distancing rules and restrictions. In all of this we have to ensure the safety of staff and residents moving forward. There may be significant financial implications in this regard, with income streams in particular likely to take a considerable time to revert back to normal levels.

“Positive talks are ongoing between Welsh Government and local authorities. The position is constantly evolving in response to Welsh and Central Government announcements. In light of these challenges, the 2020/21 Budget set in February will need to be kept under close review. It is the intention that an updated Medium Term Financial Plan will be taken to Council in the summer, hopefully in July 2020, which will be able to reflect the known and anticipated impact on the 2020/21 budget. As well as providing additional clarity with regards the current financial year, this will enable work on 2021/22 Budget setting to progress.”

Helping to manage your money

A new website to help people manage their money has been launched this week.

Cardiff Council’s Money Advice Team has developed a brand new website providing support for residents on a range of financial matters including budgeting, claiming benefits grants and discounts, debt advice and income maximisation.

The new site provides a wealth of information on different money-related topics and includes a section about money matters during the COVID-19 outbreak, giving advice on issues like employment, housing advice and getting food and essentials.

Cabinet Member for Housing and Communities, Cllr Lynda Thorne, said: “Dealing with money issues can be confusing and if you’re not sure how things like credit or mortgages work, people could end up losing out financially or getting into debt.

“Our trained staff can help people find solutions that work best for them and last year, the team helped people claim more almost £15m worth of benefits they didn’t know they were entitled to and helped save customers more than £1m on their outgoings.

“The new website is clear and simple, with easy to find information and support on a range of money matters. It’s more important than ever that we make this information available and easily accessible for people. At this time, when our face-to-face services from our community hubs have been reduced because of the pandemic, this is a really valuable resource for our customers.

“Many individuals and households across the city will no doubt be feeling the financial impact of the COVID-19 emergency so it’s important that customers know that our Money Advice team is still here to help. Our Adviceline remains open six days a week and customers can also contact the team through the website.”

Visit the new Money Advice website at https://www.cardiffmoneyadvice.co.uk/

Diweddariad COVID-19: 5 Mehefin

Croeso i ddiweddariad COVID-19 olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: datgelu cynlluniau Caerdydd i ddod allan o'r cyfnod cloi fel un o ddinasoedd 'mwyaf diogel' y DG; eglurhad o fil £29m COVID-19 i Gyngor Caerdydd; a mae gwefan newydd i helpu pobl i reoli eu harian wedi cael ei lansio yr wythnos hon.

Datgelu cynlluniau Caerdydd i ddod allan o'r cyfnod cloi fel un o ddinasoedd 'mwyaf diogel' y DG

Creu systemau cerdded unffordd i ddiogelu'r cyhoedd, gosod mannau croesawu i esbonio sut bydd symud o amgylch canol y ddinas yn gweithio ac agor tiroedd Castell Caerdydd i greu sgwâr cyhoeddus 'newydd' i fusnesau lleol ei ddefnyddio - yw dim ond rhai o'r cynlluniau mae Cyngor Caerdydd yn eu hystyried wrth iddo baratoi i adael cyfnod y cloi.

Mae'r cyngor wedi cyhoeddi cynllun gweithredu manwl sy'n amlinellu cyfres o fesurau arloesol sydd â'r nod o droi Caerdydd yn un o ddinasoedd 'mwyaf diogel' y DG wrth i fywyd ddechrau dychwelyd i'r hyn sy'n 'normal'.

Mae'r cynllun wedi ei ddatblygu ar y cyd ag Arup, arbenigwyr technegol cydnabyddedig ar ailgynllunio dinasoedd. Caiff ei ddefnyddio i ymgynghori â thrigolion, busnesau a chynghorwyr ar sut fydd y Cyngor yn:

- ailagor prifddinas Cymru'n ddiogel gan ei gwneud yn hygyrch i bawb;
- cefnogi busnesau wrth iddyn nhw ailddechrau masnachu;
- ailgyflwyno ymwelwyr yng nghanol y ddinas wrth gydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol;
- helpu pobl i gyrraedd canol y ddinas er bod llai o gapasiti ar drafnidiaeth gyhoeddus; a
- hyrwyddo Caerdydd er mwyn creu enw da fel lle diogel, croesawgar, cyffrous a blaengar i ymweld ag ef ar ôl y cyfnod cloi.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd: "Mae'r cynlluniau hyn yn dechrau amlinellu i ryw raddau sut y gall bywyd ailddechrau a sut y gall Caerdydd ffynnu er gwaethaf COVID-19. Rydym eisiau ailgychwyn, adfer ac adnewyddu prifddinas Cymru a phan fydd y cyfyngiadau yn dod i ben, rwy'n benderfynol y bydd ein dinas yn ailagor mewn ffordd a fydd yn gwneud popeth sy'n bosib i ddiogelu miloedd o swyddi; ac mewn ffordd sydd ar yr un pryd yn groesawgar ac yn hyderus ynghylch dyfodol Caerdydd.

"Rydym yn gweithio drwy fanylion y cynlluniau hyn gyda busnesau, trigolion a Chynghorwyr lleol i gael eu barn ac rwy'n ffyddiog os byddwn yn mabwysiadu yr un agwedd 'un ddinas' a welwyd y sector cyhoeddus, cymunedau a busnesau yn ddod at ei gilydd drwy gyfnod y pandemig, yna gallwn droi'r cyd-ddyhead cyffredinol i 'ail-godi'n well' yn realiti gwirioneddol.

"Un peth sy'n hynod gyffrous i mi yn benodol yw'n cynlluniau i agor tiroedd Castell Caerdydd fel sgwâr 'cyhoeddus' newydd i'r bobl leol ei ddefnyddio yn rhad ac am ddim. Mae tiroedd y castell yn ogoneddus. Gallai gynnig bwytai a chaffis ag

ardaloedd cysgodol i'w defnyddio, gan roi cyfle iddynt wneud i fyny am y gofod llawr a chleientiaid y byddent yn eu colli fel arall oherwydd bod rhaid dilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol yn eu heiddo.

"Rydym hefyd yn gweithio gyda chwmni technoleg lleol i ddatblygu App a allai olygu y gwelwn bobl yn archebu eu bwyd o'r castell a gaiff wedyn ei ddanfon atynt yno fel y gallant ei fwynhau yn y lleoliad gorau sydd gan y ddinas i'w gynnig. Rwy' hefyd yn awyddus ein bod yn gweithio gyda'r bwrdd cerddoriaeth i ddod â cherddoriaeth fyw yn ôl i'r ddinas cyn gynted ag y gallwn. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio mannau cyhoeddus i greu lleoedd diogel ar gyfer digwyddiadau lle gall pobl fwynhau cerddoriaeth ac adloniant ar y stryd mewn amgylchedd diogel a chroesawgar."

Mae'r cynllun yn amlinellu cyfres o fesurau sydd wedi eu creu i agor y ddinas yn ddiogel ac mewn ffordd a fydd yn annog pobl i ddychwelyd i'r gwaith, i siopa, cynnal eu busnes a mwynhau'r amrywiaeth eang o fwytai, caffis a bariau sydd yma.

Mae'r mesurau yn cynnwys:

Mannau Croeso - yn y prif bwyntiau mynediad i gerddwyr i'r ddinas. Bydd y Mannau Croeso yn cynnig gwybodaeth i'r ymwelydd/siopwr/gweithiwr ar sut mae canol y ddinas yn gweithio, sut i ymweld mewn modd diogel, sut i gyrraedd cyrchfannau penodol, cynllun cerdded, cyfleusterau golchi dwylo, cyfleusterau parcio beiciau ac aelod o staff i gynorthwyo. Bydd arwyddion a llysgenhadon stryd hefyd ar gael drwy ganol y ddinas i gynorthwyo ymwelwyr ac i atgyfnerthu'r wybodaeth a ddarperir yn y mannau croeso.

Symudiad unffordd i gerddwyr - Bydd angen i gerddwyr (siopwyr/gweithwyr/ymwelwyr) yng nghanol y ddinas ddilyn llwybrau wedi eu harwyddo/marcio i sicrhau y glynir at gadw pellter cymdeithasol. Bydd cyfres o symudiadau unffordd gyda mannau wedi'u clustnodi i wrthdroi'r cyfeiriad teithio (man trosneidio). Mae mannau cyfyng wedi eu nodi lle bydd angen cyfyngu symudiadau cerddwyr i un cyfeiriad yn unig, neu i symud mewn un rhes er mwyn sicrhau y gellir cynnal pellter cymdeithasol digonol. Mae cyfres o lwybrau o amgylch canol y ddinas yn cael eu datblygu gan roi ystyriaeth i'r siopau, hybiau trafnidiaeth (safleoedd bysiau, safleoedd tacsis, gorsafoedd a meysydd parcio). Datblygir cynllun i gynnwys holl strydoedd canol y ddinas, gan ystyried niferoedd ac a oes gofod cerdded diogel (i gynnal pellter cymdeithasol) ar gael.

Ciwiau - Gan y bydd pob uned fanwerthu / canolfan siopa / arcêd ond yn gallu gweithredu mewn modd diogel drwy gyfyngu ar nifer y defnyddwyr ar unrhyw adeg, mae'n anorfod y bydd hyn yn effeithio ar y strydoedd y tu allan i siopau. Nodir ardaloedd ciwio penodedig a chânt eu marcio ar y stryd. Bydd angen rhyw fath o amddiffyniad rhag y tywydd (poeth/oer/gwlyb) ar gyfer y bobl fydd yn ciwio y tu allan i unrhyw un o'r atyniadau.

Ardaloedd Cyhoeddus a Gorlifo - Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall nifer o fusnesau yn y sector lletygarwch (bwytai/caffis/bariau) ddioddef yn ddifrifol oherwydd yr angen i ddilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol. O ystyried hynny, mae'r Cyngor yn cynnig agor ardaloedd gorlifo a rhoi gofod yn yr ardaloedd cyhoeddus i fusnesau ei ddefnyddio am ddim. Mae'n hollbwysig bod prif strydoedd, mannau cyhoeddus ac

ardaloedd gorlifo newydd yn caniatáu cadw pellter cymdeithasol, yn ddiogel, wedi'u cysylltu'n dda ac yn cynnig amgylchedd gwyrdd deniadol sy'n briodol ar gyfer amgylchedd prifddinas. Mae'r cynllun yn nodi nifer o 'fannau gorlifo' lle gellir rheoli gweithgareddau cymdeithasol a digwyddiadau diogel yn well. Mae'r rhain yn cynnwys y tiroedd y tu mewn ac o amgylch prif furiau Castell Caerdydd, pen gogleddol Ffordd Churchill, yr Aes a Lôn y Felin.

Parcio - bydd angen i lawer o'r meysydd parcio yng nghanol y ddinas weithredu â chapasiti is er mwyn galluogi pobl i adael a dychwelyd i'w ceir yn ddiogel. Mae dull ar y cyd (cyhoeddus/preifat) wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer y parcio sydd ar gael yng nghanol y ddinas. Er mwyn cefnogi hyn, mae angen datblygu rhwydwaith cynhwysfawr o gyfleusterau Parcio a Theithio/Parcio a Cherdded/Parcio a Beicio er mwyn rheoli mynediad gan geir i ffwrdd o'r canol, ond i ganiatáu mynediad rhwydd i gerddwyr/beicwyr/bysiau ar gyfer y 'filltir olaf'.

Mynediad i Ganol y Ddinas – Bydd cynllun trafnidiaeth dinas integredig yn helpu pobl i gyrchu canol y ddinas mewn car, ar drafnidiaeth gyhoeddus a thrwy deithio llesol (cerdded neu feicio). Gallai'r cynllun trafnidiaeth olygu y bydd canol y ddinas yn cael ei weithredu ar batrwm 'digwyddiad'. Byddai hyn yn golygu cau ffyrdd fel y mesurau a roddir ar waith ar gyfer gemau rygbi rhyngwladol mawr yn Stadiwm Principality.
Byddai cau ffyrdd ar batrwm 'digwyddiad' yn ein galluogi i ddefnyddio ein mannau 'canol dinas' cyfyngedig yn y ffordd fwyaf effeithlon, gan hwyluso symudiadau diogel y cyhoedd gan gadw pellter cymdeithasol, mynediad i fusnesau a mannau gorlifo newydd. Byddai cylch rheoli yn cael ei osod o amgylch canol y ddinas i ganiatáu mynediad i geir a symudiad bysus/teithio llesol.

Diogelwch a Chardota Ymosodol - mae'r holl broblemau diogelwch stryd yn cael eu trafod/cytuno â'r heddlu sydd wedi cynnig cefnogaeth i reoli cerddwyr ac unrhyw broblemau cadw pellter cymdeithasol. Mae strategaeth hirdymor i helpu'r digartref wedi'r cyfnod cloi yn cael ei datblygu. Mae 140 o bobl ddigartref wedi cael lloches mewn llety newydd ers dechrau'r pandemig. Ymhlith y nifer hwn, bu 30 person yn cysgu ar y stryd a'r bwriad yw sicrhau nad yw'r bobl hynny yn dychwelyd i'r strydoedd. Mae'r diffyg cyfleoedd i gardota yng nghanol y ddinas wedi golygu bod cleientiaid, a adawyd heb fodd i ariannu dibyniaethau niweidiol, wedi ymateb yn fwy cadarnhaol i wasanaethau cymorth ac wedi dechrau rhaglenni triniaeth. Mae partneriaeth Digartref Caerdydd wedi bod yn gweithio drwy gydol y pandemig i fanteisio ar y cyfle hwn i helpu pobl i ddechrau mynd i'r afael â'u dibyniaeth. Mae nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yn y ddinas wedi gostwng i lai na deg ers y cyfnod cloi. Mae'r tîm Allgymorth yn parhau i weithio gyda'r unigolion ar y stryd i geisio'u hannog i fanteisio ar gynnig o lety a chymorth. Yn anffodus, gall arian a godir drwy gardota fod yn ddigon i alluogi pobl i ariannu eu dibyniaeth a gwrthod cynigion o gymorth.
.

Canolfannau Cymdogaeth Lleol
Mae hefyd yn bwysig cyflwyno mesurau i sicrhau y gall canolfannau cymdogaeth ailagor i fusnesau, wrth sicrhau mynediad diogel i'r cyhoedd. Mewn llawer o achosion, nid yw palmentydd yn ddigon llydan i alluogi cadw pellter cymdeithasol a gallai ciwio y tu allan i siopau ar balmentydd fod yn achos pryder. Byddwn yn

cyflwyno amrywiaeth o gynlluniau cyn gynted ag y bydd yn ymarferol, gan gynnwys pecyn o fesurau diogelwch a rhai gwyrdd gan gynnwys lledu palmentydd, llwybrau beicio a chyfyngiadau cyflymder 20mya. Gallai mesurau a gaiff eu treialu yn Heol Wellfield yn ardal y Rhath gael eu cyflwyno mewn cymdogaethau eraill hefyd

Mynediad i Geir
Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod cloi leihau ac wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith, mae'n bwysig rheoli'r system drafnidiaeth mewn ffordd sy'n galluogi cynnal pellter cymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel. Mae'n debygol y bydd capasiti trafnidiaeth gyhoeddus wedi ei gyfyngu am sawl mis a bydd effeithiau negyddol o ran ansawdd aer, tagfeydd ac allyriadau os bydd pawb yn dewis gyrru yn lle hynny. Nid oes defnydd o gar neu fan gan ryw 29% o gartrefi yng Nghaerdydd sy'n golygu ei bod yn hanfodol cynnig dewisiadau diogel a chynaliadwy yn lle trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hyn i raddau helaeth ar ffurf gwell seilwaith cerdded a beicio, ac annog preswylwyr sy'n gallu gwneud hynny i ystyried dulliau teithio llesol ar gyfer teithiau byrrach.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, y Cynghorydd Caro Wild: "Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i alluogi pobl i barhau i feicio a cherdded wrth i gyfyngiadau'r cyfnod cloi lacio. Mae cyfle i ni i gyd nawr weld â'n llygaid ein hun sut fath o le y gallai Caerdydd wyrddach a mwy diogel fod. Bydd capasiti trafnidiaeth gyhoeddus wedi eu gyfyngu am beth amser, a chredwn y bydd llawer o bobl yn parhau i weithio gartref, a ddylai leihau nifer y ceir yn y ddinas. Yr hyn nad ydym am ei weld yw tagfeydd a lefelau llygredd yn codi eto. Yn enwedig gyda'r mesurau hyn, bydd yn rhaid i ni gyflwyno palmentydd ehangach er mwyn sicrhau y gellir dilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol.

"Er mwyn helpu rydym yn ystyried cynnig rhwydwaith beicio 'dros dro' i annog pobl sy'n gallu, i feicio i ganol y ddinas neu i'w canolfannau cymdogaeth yn hytrach na gyrru. Byddwn hefyd yn ystyried darparu lleoedd parcio ychwanegol i feics mewn lleoliadau allweddol yng nghanol y ddinas ac yn ein canolfannau cymdogaeth. Byddwn yn adolygu'r posibilrwydd o greu safleoedd 'parcio a phedlo' a byddwn yn gosod mesurau blaenoriaethu bysus megis gatiau bysus er mwyn cynyddu capasiti'r bysus gan leihau'r amseroedd teithio a sicrhau gwasanaethau dibynadwy."

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, y Cynghorydd Russell Goodway: "Bydd prif golledion economaidd yn sgil y feirws i'w teimlo yng nghanol dinas Caerdydd, sy'n gyfrifol am oddeutu traean o swyddi'r ddinas. Mae canol y ddinas yn gartref i nifer fawr o'r busnesau sydd eisoes wedi dioddef fwyaf ac a fydd yn parhau i ddioddef yn sgil y pandemig, oherwydd eu dibyniaeth ar niferoedd defnyddwyr. Mae'n bosibl bod 45,000 o swyddi yn y ddinas mewn perygl: rhagwelir y byddai gostyngiad o 20% yn unig yn yr economi yn arwain at golli 10,000 o swyddi ar draws y sectorau hyn. Felly, mae'n hollbwysig cael cynifer o fusnesau yn ôl i weithio'n ddiogel cyn gynted â phosibl. Bydd dinasoedd ledled y DG yn cystadlu am bobl. Mae angen i Gaerdydd adennill hyder pobl leol, ymwelwyr, myfyrwyr a buddsoddwyr.

"Mae'n amlwg bod angen gweithredu ar frys i ail-agor canol y ddinas fel cyrchfan groesawgar. Mae ein trafodaethau gyda chyflogwyr lleol a gweithredwyr busnes wedi bod yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Mae pawb yn adnabod y ddinas ac mae angen

i'r economi ddechrau symud cyn gynted ag y bo'n ddiogel. Rydym am agor mannau cyhoeddus am ddim, a gweithredu trefniadau trwyddedu hyblyg i gefnogi busnesau a allai weld eu niferoedd cwsmeriaid yn cael eu lleihau'n aruthrol yn sgil gofynion cadw pellter cymdeithasol. Os gallwn agor mannau cyhoeddus dan do i rai busnesau, gall roi cyfle iddynt ddechrau arni eto a gall roi cyfle iddynt arbed swyddi."

Bydd y cynllun strategol ac adroddiad y Cyngor sy'n cyd-fynd ag ef yn mynd i Gabinet Cyngor Caerdydd i'w drafod ddydd Iau, 11 Mehefin.

Eglurhad o fil £29m COVID-19 i Gyngor Caerdydd

Datgelwyd dadansoddiad o amcan gost ymateb i Covid-19 o £29m i Gyngor Caerdydd rhwng mis Ebrill a diwedd Mehefin mewn adroddiad i Gabinet yr awdurdod.

Ymhlith y costau y mae:

- Gwariant o £5.1m ar gyfarpar diogelu personol (PPE);
- Cymorth i ddarparwyr gofal yn y cartref a phreswyl i adlewyrchu costau ychwanegol rhoi gofal yn ystod y pandemig;
- £2.1m ar ddarparu prydau ysgol am ddim i tua 12,000 o ddisgyblion bob dydd;
- £2.1m o gymorth i gyflenwyr, a delir yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau yn ystod ac ar ôl argyfwng Covid-19 presennol;
- £1.8m ar wasanaethau profedigaeth – (a ganiatawyd caffael marwdy dros dro);
- £ 1.7m ar newidiadau gweithredol ar gyfer gwastraff; a
- £1.6 miliwn ar dai i gynorthwyo'r digartref yn ystod y pandemig.

Mae'r Cyngor hefyd wedi datgelu'r colledion incwm yr amcenir y bydd COVID-19 wedi ei gostio i'r Cyngor dros yr un cyfnod.

Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Colled o £3.8m mewn ffioedd parcio, cosbau parcio a Throseddau Traffig sy'n Symud;
- Colled o £2.3m o leoliadau a digwyddiadau;
- Colled o £1.3m o wastraff masnachol, swmpus ac ailgylchu;
- Colled o £700,000 o weithgareddau hamdden a chwaraeon awyr agored;
- Colled o £700,000 o brydau ysgol;
- Colled o £600,000 o Storey Arms a'r Gwasanaeth Cerddoriaeth;
- Colled o £500,000 o gynllunio a rheoli adeiladau.

Dangosodd yr adroddiad y gwariant a oedd yn gysylltiedig â delio ag effeithiau'r feirws.

Mae'r awdurdod yn amcangyfrif ei fod wedi gwario mwy na £18m yn ymateb i'r argyfwng, ac amcangyfrifir bod £11m arall o incwm wedi ei golli o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19 yn nhri mis cyntaf y flwyddyn ariannol yn unig.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Weaver, sef yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad: "Mae Cyngor Caerdydd wedi ymateb yn gyflym i'r argyfwng, gan newid y ffordd rydym yn gweithio, gan roi ffocws clir ar gynnal gwasanaethau hanfodol sy'n darparu ar gyfer ein trigolion mwyaf agored i niwed.

"Ers cychwyn y cyfnod cloi, mae ein gwasanaethau wedi gorfod ymateb ac addasu i'r argyfwng wrth i'r sefyllfa barhau i esblygu. Rydym wedi sefydlu gweithrediadau bwyd i sicrhau na fydd pobl ar draws y ddinas sy'n gwarchod neu'n cael anhawster ariannol oherwydd y feirws yn mynd heb fwyd. Rydym wedi newid y ffordd mae ein gwasanaethau gwastraff yn gweithredu er mwyn sicrhau y cynhelir casgliadau ymyl y ffordd bob wythnos gan gadw ein staff a'n trigolion yn ddiogel.

"Rydym wedi caffael miliynau o eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol i sicrhau y gall ein gwasanaethau a'r sector gofal barhau i weithredu. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r sector gofal i sicrhau y gall barhau i weithredu yn y cyfnod anodd hwn, gan ddarparu gwasanaeth hynod bwysig a gwerthfawr. Mae ein hysgolion ardal wedi agor i blant gweithwyr allweddol ac rydym wedi cynnig prydau a thaliadau arian parod i filoedd o blant difreintiedig trwy gydol y cyfnod cloi.

"Wrth gwrs mae hyn i gyd yn costio ac rydym wedi gwario mwy na £18 miliwn er mwyn sicrhau bod y ddinas yn parhau i redeg ac nad yw'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein plith yn dioddef yn ddiangen. Rydym bob amser wedi canolbwyntio ar sicrhau gwydnwch gwasanaethau sy'n hanfodol i'n hymateb i COVID-19, gan wneud popeth a allwn i amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a'n staff, a cheisio atal y feirws rhag lledaenu."

Mae'r gwariant ychwanegol o £18m yn cael ei adolygu'n gyson, ac mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd wrth i ragor o bwysau ddod i'r amlwg. Mae hyn yn cynnwys asesu effaith ariannol cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am gymorth gyda'r Dreth Gyngor a gwaith i sefydlu gwasanaethau 'Olrhain Cyswllt' effeithiol yn lleol fel rhan o fenter Cymru gyfan.

Ychwanegodd y Cynghorydd Weaver: "Pan edrychwn ar incwm, rydym yn amcangyfrif y byddwn yn colli dros £11m o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19. Mae'r incwm a gollir yn ystod y cyfnod cloi yn cynnwys cau lleoliadau diwylliannol a chwaraeon y Cyngor fel theatrau, Castell Caerdydd, Dŵr Gwyn Caerdydd a Neuadd y Ddinas. Mae hefyd yn adlewyrchu llai o weithgarwch mewn meysydd eraill sy'n creu incwm, gan gynnwys cynllunio, parcio, troseddau traffig sy'n symud, gwastraff masnachol, cofrestru ac arlwyo mewn ysgolion.

"Yn debyg i wariant, bydd yr amcangyfrif hwn yn cael ei fonitro'n ofalus a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Dros amser bydd angen dadansoddi'r asesiad o ffrydiau incwm pellach a'r un mwyaf arwyddocaol fydd y posibilrwydd o unrhyw effaith ar gasglu'r Dreth Gyngor eleni. Mae pob ceiniog rydym yn ei chymryd ar gyfer y Dreth Gyngor yn awr yn hanfodol. Mae'n ein helpu i gynnal llif arian rheolaidd, sy'n ein galluogi i reoli rhywfaint o'r gwariant a'r colledion incwm rydym wedi'u gweld."

Mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yn gallu hawlio'n ôl y gwariant ychwanegol o £18m gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Galedi Covid-19. Mae'r gronfa hon yn werth £110m ar hyn o bryd ac mae ar gael i bob awdurdod lleol yng Nghymru ei defnyddio.

Hyd yma mae Cyngor Caerdydd wedi derbyn £465,000 i dalu am wariant sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn ystod wythnosau olaf mis Mawrth. Cyflwynwyd hawliad o £5.2m ym mis Ebrill i Lywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad yn dweud, fodd bynnag, ei bod yn debygol na fydd y lefel ariannu bresennol yn ddigon ar gyfer yr holl ofynion gwariant ar lefel Cymru gyfan, ac nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch a fydd incwm a gollwyd yn cael ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru.

Ychwanegodd y Cynghorydd Weaver: “Rydym yn cyflwyno hawliadau i Lywodraeth Cymru bob mis. Mae, wrth gwrs, elfen o risg o ran yr adennill costau parhaus. Yn arbennig gan fod y trefniadau ariannu presennol dim ond wedi'u cadarnhau tan ddiwedd Mehefin 2020. Mae'n amlwg i ni y bydd yr heriau a wynebwn a'r arian rydym yn ei wario i ddelio â'r heriau hynny yn ymestyn y tu hwnt i'r amserlen honno.

"Felly bydd angen ystyried a deall yn llawn goblygiadau symud tuag at yr hyn sy'n debygol o fod y "normal newydd" wrth i gyfyngiadau'r cyfnod cloi gael eu lleddfu ac i'r cyfnod adfer ddechrau. Mae hyn yn debygol o gynnwys effaith strategaethau gadael ar gyfer y newidiadau gwasanaeth a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig. Mae hefyd yn debygol y bydd angen newid rhai gwasanaethau er mwyn cadw at reolau a chyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol. Mae'n rhaid i ni sicrhau diogelwch staff a thrigolion yn hyn oll tua'r dyfodol. Efallai y bydd goblygiadau ariannol sylweddol yn hyn o beth, gyda ffrydiau incwm yn arbennig yn debygol o gymryd cryn amser i ddychwelyd i lefelau arferol.

"Mae trafodaethau cadarnhaol ar y gweill rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'r sefyllfa'n esblygu drwy'r amser, yn ymateb i gyhoeddiadau llywodraethau Cymru a'r DU. Oherwydd yr heriau hyn, bydd angen cadw golwg manwl ar gyllideb 2020/21 a bennwyd ym mis Chwefror. Y bwriad yw y bydd Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddwyn gerbron y Cyngor yn yr haf, ym mis Gorffennaf 2020 gobeithio, a fydd yn gallu adlewyrchu'r effaith hysbys a disgwyliedig ar gyllideb 2020/21. Yn ogystal â rhoi rhagor o eglurder o ran y flwyddyn ariannol gyfredol, bydd hyn yn caniatáu bwrw ymlaen â gwaith pennu cyllideb 2021/22."

Help i reoli eich arian

Mae gwefan newydd i helpu pobl i reoli eu harian wedi cael ei lansio yr wythnos hon.

Mae Tîm Cyngor Ariannol Cyngor Caerdydd wedi datblygu gwefan newydd sbon i roi cymorth i drigolion ar ystod o faterion ariannol gan gynnwys cyllidebu, hawlio grantiau budd-daliadau a disgowntiau, cyngor ar ddyledion a sicrhau'r incwm mwyaf posibl.

Mae'r wefan newydd yn cynnig llawer o wybodaeth am wahanol bynciau sy'n ymwneud ag arian ac mae'n cynnwys adran am faterion ariannol yn ystod argyfwng COVID-19, sy'n rhoi cyngor ar faterion megis cyflogaeth, cyngor ar dai a chael bwyd a hanfodion.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd Lynda Thorne: Gall delio â materion ariannol beri dryswch ac os nad ydych yn siŵr sut mae pethau fel credyd neu forgeisi'n gweithio, gall pobl fod ar eu colled yn ariannol neu gallant fynd i ddyled.

“Gall ein staff hyfforddedig helpu pobl i ddod o hyd i’r atebion sy’n gweithio orau iddyn nhw a’r llynedd, helpodd y tîm bobl i hawlio bron i werth £15 miliwn o fudd-daliadau nad oedden nhw’n gwybod bod ganddyn nhw hawl iddynt a helpu cwsmeriaid i arbed dros £1 miliwn ar eu gwariant.

"Mae'r wefan newydd yn glir ac yn syml, ac mae'n hawdd dod o hyd i wybodaeth a chymorth ar amrywiaeth o faterion ariannol arni. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i bobl. Ar yr adeg hon, a gwasanaethau wyneb yn wyneb o'n hybiau cymunedol wedi'u lleihau oherwydd y pandemig, mae hwn yn adnodd gwirioneddol werthfawr i'n cwsmeriaid.

"Mae'n siŵr y bydd llawer o unigolion ac aelwydydd ar draws y ddinas yn teimlo effaith ariannol argyfwng COVID-19, felly mae'n bwysig bod cwsmeriaid yn gwybod bod ein Tîm Cyngor Ariannol yma o hyd i helpu. Mae ein llinell gyngor ar agor o hyd chwe diwrnod yr wythnos a gall cwsmeriaid gysylltu â’r tîm drwy’r wefan hefyd.”

Ewch i'n gwefan Cyngor Ariannol newydd ar www.cyngorariannolcaerdydd.co.uk